# P-04-562 Canolfan Etifeddiaeth Caernarfon

**Geiriad y ddeiseb**:

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn galw ar Lywodraeth Cymru i ariannu Canolfan Etifeddiaeth yng Nghaernarfon. Mae□r dref hon yn haeddu canolfan i ddangos ein hanes, hanes y bobol, y diwydiant, yr iaith a□r celfyddydau mewn adeilad pwrpasol a deniadol o fewn tref Caernarfon a bod yn gartref i□r trysorau sydd wedi eu cymryd o□n Tre.

Mae bron i fil o bobol Caernarfon, yr ardal ac ymwelwyr yn galw am adnodd o□r fath yn un o□r trefi mwy hynafol a phwysig yng Nghymru. Mae ymwelwyr sydd yn dod ar fy nheithiau o amgylch tref Caernarfon□www.drodre.co□yn gofyn, "Where is the Town Museum?" ac mae□n rhaid ateb nad oes dim yn y dref bellach! Ac maent i gyd yn gweld hyn yn anhygoel gan fod hanes o□u cwmpas ym mhob man.

**Prif ddeisebydd**:  Caernarfon Civic Society

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 17 Mehefin 2014